| | |
|---|---|
| Fersiwn | 8 |
| Dyddiad Diwygio diwethaf | Rhagfyr 2025 |

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'n well
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# HS 2

# Polisi Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol ('CDP')

RHONDDA CYNON TAF

| RHEOLI'R DDOGFEN | |
|---|---|
| **ENW'R POLISI** | **Polisi Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol ('PPE')** |
| Adran | Adnoddau Dynol |
| Rhif ffôn | 01443 425536 |
| Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi | Mai 1996 |
| Swyddog Adolygu | Adrian Perry |
| Dyddiad Adolygu | Tachwedd 2027 |
| Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 2008 |
| | |
| **HANES DIWYGIO** | |
| Dyddiad | Diwygiwyd gan |
| Mai 1996 | Gerwyn Hogben |
| Gorffennaf 2002 | Gerwyn Hogben |
| Chwefror 2010 | Mike Murphy |
| Gorffennaf 2016 | Mike Murphy |
| Gorffennaf 2018 | Mike Murphy |
| Mawrth 2021 | Mike Murphy |
| Rhagfyr 2025 | Adrian Perry |
| | |
| | |
| **CYMERADWYO'R DDOGFEN** | |
| Mae'r ddogfen yma wedi'i chymeradwyo gan: | Dyddiad Cymeradwyo |
| Uwch-reolwyr Adnoddau Dynol | |
| Rheolwyr y Cyngor | |
| Y Cabinet | |

CYNNWYS

1. Cyflwyniad ........ 1
2. Datganiad Polisi ........ 3
**Canllawiau Polisi**
3. Trefniadau diogelu Iechyd a Diogelu Gweithwyr ........ 5
4. Gweithdrefnau Datrys Problemau Iechyd a Diogelwch ........ 5
5. Hyfforddiant ........ 6
6. Cynnal a Chadw ........ 6
7. CDP Newydd ........ 6
8. Cadw Cofnodion ........ 7
9. Rheoliadau Eraill ........ 7
10. Cyngor ........ 8
Atodiad A - Cyfarpar Diogelu Personol ........ 9
Rhestr Wirio i Reolwyr ........ 11

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad polisi yma wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfarpar Diogelu yn y Gwaith 1992 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Rheoliadau Cyfarpar Diogelu yn y Gwaith 1992 wedi'u diwygio gan y Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith (fel y'i diwygiwyd) 2022.

Mae Rheoliadau 1992 yn gosod dyletswydd ar bob cyflogwr ym Mhrydain Fawr i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol ('CDP') addas yn cael ei ddarparu i **weithwyr** a allai fod yn agored i risg i'w hiechyd neu eu diogelwch tra yn y gwaith.

**Mae Rheoliadau 2022 yn ymestyn y ddyletswydd yma i weithwyr cymal (b). Daeth hyn i rym ar 6 Ebrill 2022.**.

Mae hyn yn golygu, os yw asesiad risg yn dangos bod angen cyfarpar diogelu personol ar weithiwr cymal (b) i gyflawni ei waith, rhaid i'r cyflogwr bellach gynnal asesiad addasrwydd cyfarpar diogelu personol a darparu'r offer yma'n rhad ac am ddim, fel y mae ar gyfer ei weithwyr eraill.

Mae'r cyflogwr yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw CDP mae'n ei ddarparu ar gyfer ei weithwyr a gweithwyr cymal (b), yn ogystal â bod yn gyfrifol am storio ac amnewid y cyfarpar hynny. Mae'n ofynnol i weithwyr cymal (a) a gweithwyr cymal (b) ddefnyddio'r CDP yn gywir, a hynny ar ôl derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd gan y cyflogwr. Os bydd y cyfarpar sy'n cael ei ddarparu yn cael ei golli neu'n torri, dylai gweithwyr cymal (a) a gweithwyr cymal (b) roi gwybod i'r cyflogwr am hynny ar unwaith.

1.2 Mae gan ddiffiniad Adran 230 (3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 o weithiwr 2 gymal:

- Mae cymal (a) yn disgrifio'r rhai sydd â chontract cyflogaeth. Mae'r grŵp yma'n weithwyr o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ac maen nhw eisoes o fewn cwmpas Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992;
- Mae cymal (b) yn disgrifio gweithwyr sydd fel arfer â pherthynas gyflogaeth fwy achlysurol ac sy'n gweithio o dan gontract am wasanaethau. Doedd y rhain ddim yn rhan o gwmpas Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992.

Mae Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 2022 yn defnyddio'r diffiniad yma o weithiwr ac mae'n cynnwys gweithwyr cymal (a) a gweithwyr cymal (b):

Mae '*Gweithiwr* yn golygu unigolyn sy'n gweithio o dan:

- (a) contract cyflogaeth; neu
- (b) unrhyw gontract arall, boed yn benodol neu'n oblygedig ac (os yw'n benodol) boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, lle mae'r unigolyn yn ymrwymo i wneud neu gyflawni'n bersonol unrhyw waith neu wasanaethau i barti arall i'r contract nad yw ei statws, yn rhinwedd y contract, yn gleient neu'n gwsmer unrhyw broffesiwn neu fenter fusnes a gyflawnir gan yr unigolyn;

  a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at gontract gweithiwr yn unol â hynny'.

1.3 Yn gyffredinol, mae gweithwyr sy'n dod o dan gymal (b):

- yn gwneud gwaith achlysurol neu afreolaidd i un neu ragor o sefydliadau;
- ar ôl un mis o wasanaeth di-dor, yn derbyn tâl gwyliau ond nid hawliau eraill, e.e. y cyfnod lleiaf o rybudd statudol;
- dim ond gweithio os ydyn nhw'n dymuno;
- â chontract neu gytundeb arall i wneud gwaith neu gynnal gwasanaethau'n bersonol am dâl (does dim rhaid i'r contract fod yn ysgrifenedig). Dim ond hawl gyfyngedig sydd gyda nhw i anfon rhywun arall i wneud y gwaith ar eu rhan, e.e. cyfnewid sifftiau gyda rhywun ar restr wedi'i chymeradwyo ymlaen llaw (is-gontractio);
- yn gweithio i rywun arall. Hynny yw, dydyn nhw ddim yn gweithio drostyn nhw eu hunain (dydyn nhw ddim yn hysbysebu gwasanaethau yn uniongyrchol i gwsmeriaid sydd wedyn yn gallu trefnu cael eu gwasanaethau yn uniongyrchol hefyd).

Gan y bydd pob perthynas gyflogaeth yn benodol i'r unigolyn a'r cyflogwr, dim ond llys neu dribiwnlys all benderfynu ar union statws unrhyw weithiwr yn y pen draw.

1.4 Dydy'r newidiadau i Reoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2022 o ran gweithwyr cymal (b) ddim yn berthnasol i'r rhai sydd â statws hunangyflogedig.

1.5 Mae cyfeiriadau at 'gweithiwr' yn y polisi yma'n cynnwys gweithwyr cymal (a) a gweithwyr cymal (b).

1.6 At ddibenion y polisi yma, dyma ystyr Cyfarpar Diogelu Personol (CDP):

"pob math o gyfarpar (gan gynnwys dillad sy'n diogelu rhag y tywydd) i'w wisgo neu i'w ddal gan berson yn y gwaith, sy'n ei ddiogelu rhag un risg neu fwy i'w iechyd a diogelwch, ac unrhyw ran ychwanegol neu

ategolyn ar gyfer cyflawni'r amcan hwnnw".

1.3 Dyw'r Rheoliadau ddim yn ymdrin â rhai mathau o gyfarpar. Yn bennaf, mae'r rhain yn cynnwys dillad gwaith arferol a gwisg gwaith nad ydyn nhw'n diogelu rhag risgiau i iechyd a diogelwch, gan gynnwys 'dillad amddiffynnol' a ddarperir yn y diwydiant bwyd yn bennaf at ddibenion hylendid bwyd.

## 2. DATGANIAD POLISI

2.1 Rhaid rhoi CDP pan na fydd modd rheoli'r risg yn y gwaith heblaw gwneud hynny. Dylid ystyried CDP yn ddewis olaf i ddiogelu rhag risgiau i iechyd a diogelwch. Dylid ystyried mesurau rheoli addasu ffisegol a systemau gwaith diogel yn gyntaf.

Ystyriwch hierarchaeth y mesurau rheoli isod, yn y drefn honno. Dileu perygl yw’r mesur rheoli mwyaf effeithiol a CDP yw’r lleiaf effeithiol:

- **dileu** – cael gwared ar y perygl yn ffisegol;
- **amnewid** – disodli'r perygl gyda threfniadau amgen;
- **rheolaethau peirianneg** – ynysu pobl rhag y perygl;
- **rheolaethau gweinyddol** – newid y ffordd y mae pobl yn gweithio;
- **CDP** – amddiffyn y gweithiwr gyda chyfarpar diogelu personol.

Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles gweithwyr sy'n gweithio gyda CDP. Rhaid i'r holl offer a gyflenwir fod â marc UKCA neu CE, wedi'i gyflenwi gyda datganiad cydymffurfiaeth a chael cyfarwyddiadau yn Saesneg.

2.2 Caiff ei gydnabod y bydd unrhyw beryglon i iechyd a diogelwch wedi cael eu hadnabod os caiff CDP ei ddefnyddio, ac y bydd unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.

2.3 Yn gyffredinol, caiff ei gydnabod bod modd defnyddio CDP heb risgiau gormodol i iechyd. Serch hynny, os daw i'r amlwg y gallai fod gan rai gweithwyr amheuaeth neu bryderon ynglŷn â defnyddio CDP, rhaid rhoi hyfforddiant a gwybodaeth er mwyn galluogi gweithwyr i ddeall problemau yn well.

2.4 Lle bo'n briodol, bydd anghenion gweithwyr unigol yn cael eu diwallu, er enghraifft, rhywun sydd ag alergedd i latecs neu gyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes, ac ati.

2.5 Pan fydd yn briodol, caiff darpariaethau eu gwneud ar gyfer gweithwyr sydd â gofynion diwylliannol neu grefyddol sy'n berthnasol i CDP.

2.6 Bydd y Cyngor (neu ysgol, fel sy'n briodol) yn talu am bob CDP sy'n cael ei ystyried yn hanfodol yn rhan o asesiad er budd iechyd a diogelwch ei weithwyr, yn ogystal â'r rheiny sy'n derbyn hyfforddiant ac sydd ar brofiad gwaith, ac unrhyw ymwelwyr â'i safleoedd (contractwyr sy'n gweithio ar ran y Cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu CDP i'w gweithwyr).

2.7 At ddefnydd gwaith yn unig y mae CDP, a rhaid peidio â defnyddio CDP at ddibenion preifat, megis prosiectau trwsio gartref, garddio, ac ati.

2.8 Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth yw rhoi darpariaethau'r polisi yma ar waith a pharatoi strategaeth weithredu.

**CANLLAWIAU POLISI**

## 3. TREFNIADAU DIOGELU IECHYD A DIOGELU GWEITHWYR

3.1 Camau sydd i'w cymryd:

- cwblhau asesiad risg o'r gweithgaredd gwaith i bennu'r CDP sydd ei angen, os oes ei angen, gan ystyried hierarchaeth y mesurau rheoli;
- cwblhau asesiad o'r CDP sydd wedi cael ei awgrymu a phenderfynu p'un a yw'n addas neu beidio;
- rhoi'r CDP priodol i'r gweithwyr perthnasol;
- cymryd unrhyw fesurau sydd eu hangen i ddileu risgiau oherwydd defnyddio CDP sydd wedi dod i'r amlwg yn yr asesiad;
- sicrhau, pan gaiff dwy eitem o CDP (neu fwy) eu defnyddio ar yr un pryd, eu bod yn gyfaddas a'u bod mor effeithiol â'u bod yn unigol;
- trefnu i Gyfarpar Diogelu Personol gael ei gadw mewn lleoliad digonol;
- rhoi camau ar waith ar gyfer cynnal a chadw, glanhau a chyweirio CDP;
- hyfforddi gweithwyr i ddefnyddio CDP yn ddiogel yng nghyd-destun pob risg;
- newid CDP sydd wedi cael ei roi er mwyn bodloni rhwymedigaeth statudol pan fydd angen, heb ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr dalu unrhyw gost;
- rhoi gwybod i bob gweithiwr am y risgiau sy'n bodoli;
- ailasesu p'un a yw'r sylweddau a gaiff eu defnyddio, neu'r prosesau gwaith, yn newid;
- trefnu i sicrhau bod modd i weithwyr roi gwybod eu bod wedi colli CDP neu fod nam arno.

3.2 Mae Atodlen A mewn atodiad yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar brif ddyletswyddau'r cyflogwr a'r gweithiwr yn y Rheoliadau.

## 4. GWEITHDREFNAU DATRYS PROBLEMAU IECHYD A DIOGELWCH

4.1 Pan fo gweithiwr yn codi mater cysylltiedig ag iechyd a diogelwch o ran defnyddio CDP, dylai rheolwyr wneud y canlynol:

- cymryd pob cam sydd ei angen i ymchwilio i'r amgylchiadau;

- cymryd mesurau i gywiro'r broblem pan fo'n briodol;
- rhoi gwybod i'r gweithiwr am y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd.

4.2 Pan fo problem yn codi o ran defnyddio CDP, rhaid i'r gweithiwr wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i berson cyfrifol ar unwaith;
- yn achos salwch, rhoi gwybod i'r goruchwyliwr.

## 5. HYFFORDDIANT

5.1 Rhaid i ddefnyddwyr gael gwybod y rheswm y mae angen CDP; pryd i'w ddefnyddio, ei drwsio neu ei newid; a'i gyfyngiadau. Rhaid cyfarwyddo a hyfforddi gweithiwr ar ei ddefnyddio a'u goruchwylio yn ei ddefnyddio. Gan y caiff CDP ei ddefnyddio yn niffyg opsiwn arall, ac ar ôl ystyried dulliau diogelu eraill, mae'n bwysig bod defnyddwyr yn ei wisgo yn ystod yr holl amser y bydd risg iddyn nhw. Ddylai eithriadau ddim cael eu nodi yn achos y gorchwylion hynny sy'n cymryd 'ychydig funudau yn unig'. Rhaid monitro defnydd CDP yn rheolaidd ac ymchwilio i unrhyw resymau dros beidio â'i ddefnyddio yn llawn. Dylai arwyddion diogelwch gael eu defnyddio er mwyn atgoffa gweithwyr i wisgo CDP. Dylai'r rhain gydymffurfio â'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch).

## 6. CYNNAL A CHADW

6.1 Ym mhob achos, rhaid gofalu am CDP yn dda a'i gadw yn gywir pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, rhaid ei gadw mewn cwpwrdd sych, glân a rhaid cadw eitemau llai megis cyfarpar diogelu llygaid mewn blwch neu gas. Dylai CDP gael ei gadw'n lân ac mewn cyflwr da. Dylai cynllun cynnal a chadw'r gweithgynhyrchydd (gan gynnwys argymhellion o ran newid cyfarpar a'i oes) gael ei ddilyn. Mae modd i unigolyn sy'n gwisgo cyfarpar ymgymryd â gwaith cynnal a chadw didrafferth. Dylai gwaith atgyweirio mwy cymhleth gael ei wneud gan arbenigwyr.

6.2 I osgoi colli amser yn ddiangen ac i sicrhau diogelwch yr unigolyn sy'n ei wisgo, mae'n synhwyrol sicrhau bod CDP ar gael yn barod.

## 7. CDP NEWYDD

7.1 Rhaid prynu CDP newydd oddi wrth gyflenwr sydd ag enw da, a sicrhau bod y cyfarpar yn bodloni unrhyw ofyniad cyfreithiol sy'n berthnasol i'r eitem honno.

## 8. CADW COFNODION

8.1 Rhaid cadw cofnodion o'r canlynol:

- canlyniadau asesiad o gyfarpar diogelu personol;
- camau gweithredu o ganlyniad i asesiad o gyfarpar diogelu personol;
- rhestr o gyfarpar diogelu personol a'r bobl sy'n cael y cyfarpar hwnnw;
- hyfforddiant sy'n cael ei roi;
- gwybodaeth sy'n cael ei rhoi i weithwyr;
- cwynion neu honiadau o drafferth, neu ganfod nad yw CDP yn addas ar ôl ei ddefnyddio, mewn profion maes neu drwy arolygon;
- camau gweithredu o ganlyniad i gwynion o'r fath;
- cyngor gweithgynhyrchwyr ynghylch cyfaddasrwydd eitemau amrywiol o gyfarpar diogelu personol a gaiff eu defnyddio gyda'i gilydd;
- newid CDP (ynghyd â dyddiadau);
- cynnal a chadw CDP a'i brofi.

## 9. RHEOLIADAU ERAILL

9.1 Dyw'r Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith ddim yn berthnasol pan gaiff CDP ei roi yn unol â phum set o reoliadau eraill. Mae'r rheoliadau yma eisoes ei gwneud yn ofynnol defnyddio rhai mathau o gyfarpar diogelu personol er mwyn osgoi risgiau penodol. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith yn ei gwneud yn ofynnol gwisgo cyfarpar diogelu clyw pan fo angen. Dyma'r pum set o reoliadau:

- y Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gwaith;
- y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio;
- y Rheoliadau Rheoli Asbestos;
- y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd;
- a’r Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith.

## 10. CYNGOR

10.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY, rhif ffôn 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

.

## ATODIAD A

## CYFARPAR DIOGELU PERSONOL

Pan fo perygl yn parhau ar ôl i gamau gael eu cymryd er mwyn osgoi risgiau i iechyd a diogelwch neu er mwyn eu rheoli yn unol â deddfwriaeth arall, rhaid defnyddio cyfarpar diogelu (CDP) addas.

Rhaid darparu, dewis a defnyddio CDP yn unol ag amodau a dyletswyddau’r cyflogwr a'r gweithiwr:

**Rhaid i gyfarpar diogelu personol:**

- gael ei ystyried yn ddull o leihau risgiau yn niffyg rhai eraill yn unig;
- bod yn briodol i'r risg berthnasol;
- rhoi ystyriaeth i ergonomeg;
- ffitio'n gywir;
- peidio â pheri risg newydd/mwy o ganlyniad i'w ddefnydd;
- bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r eitem honno.

### Dyletswyddau cyflogwyr

Rhaid i gyflogwyr wneud y canlynol:

- ymgynghori â defnyddwyr wrth ddewis ac amlinellu cyfarpar;
- ystyried risgiau yn y gweithle;
- ystyried gofynion y swydd/ymdrech corfforol;
- ceisio cyngor meddygol os caiff gwisgwyr unigol broblemau.

### Dyletswyddau gweithwyr

Rhaid i weithwyr:

- gofalu am gyfarpar diogelu personol i raddau rhesymol;
- rhoi gwybod ar unwaith pan fydd CDP yn cael ei golli, pan fydd nam arno neu pan fydd yn cael ei ddifrodi;
- mynnu siarad â'r cyflogwr os bydd ganddyn nhw unrhyw bryder o ran defnyddio CDP.

### Cynnal a chadw a newid CDP

Rhaid i gyflogwyr wneud y canlynol:

- sicrhau bod CDP yn gweithio yn dda pan gaiff ei roi;
- pan fo'n briodol, darparu ar gyfer glanhau, diheintio, archwilio, profi a chadw cofnodion;
- dilyn cynlluniau a chyfarwyddiadau cynnal a chadw gweithgynhyrchwyr; trafod unrhyw benderfyniad i beidio â gwneud hynny ymlaen llaw;
- sicrhau mai unigolion hyfforddedig yn unig sy'n ymgymryd ag atgyweiriadau manwl;
- cadw digon o rannau sbâr wrth gefn ar gyfer gwisgwyr.

### Defnyddio CDP

Rhaid i gyflogwyr wneud y canlynol:

- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff CDP ei ddefnyddio'n gywir.

Rhaid i weithwyr:

- defnyddio CDP a gaiff ei roi ym mhob ffordd ac yn gywir.

### Cadw CDP

Rhaid i gyflogwyr wneud y canlynol:

- cadw CDP mewn man diogel pan na fydd yn cael ei ddefnyddio;
- sicrhau y caiff cyfarpar i'w atgyweirio, a chyfarpar wrth gefn, eu cadw ar wahân.

Rhaid i weithwyr wneud y canlynol:

- cadw CDP yn y man a gaiff ei ddarparu pan na fyddan nhw'n ei ddefnyddio.

### Gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant

Rhaid i gyflogwyr wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i ddefnyddwyr am risgiau a'r rhesymau y mae angen CDP;
- cyfarwyddo/hyfforddi gweithwyr i ddefnyddio CDP a gaiff ei roi, y pethau y mae'n ei gyflawni a'i gyfyngiadau;
- cyfarwyddo/hyfforddi gweithwyr i ddewis, i ddefnyddio ac i roi CDP i gadw;
- cyfarwyddo/hyfforddi gweithwyr yn y ffactorau a allai effeithio ar y cyfarpar diogelu a gaiff ei roi, a darparu hyfforddiant gloywi pan fo angen.

Mae'n synhwyrol cadw cofnodion o fanylion hyfforddiant.

## Codi tâl am ddefnyddio cyfarpar diogelu personol

Chaiff y cyflogwr ddim codi tâl am roi CDP sydd ei angen i'w ddefnyddio yn y gwaith. (Noder: Bydd y Cyngor yn rhoi'r holl gyfarpar CDP sydd ei angen am ddim i weithwyr, y rheiny sy'n hyfforddi a'r rheiny ar brofiad gwaith. Serch hynny, rhaid defnyddio'r CDP a gaiff ei ddarparu yn y gwaith yn unig. Rhaid iddyn nhw beidio â'i ddefnyddio at ddibenion ac eithrio'r gwaith, e.e. ei wisgo yn y tŷ er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw).

## RHESTR WIRIO I REOLWYR

| | ✓ Fel y bo'n briodol | | |
|---|---|---|---|
| | Dd/ B | ✓ | X |
| • Ydych chi wedi sicrhau bod asesiad risg wedi'i gynnal i bennu'r angen am gyfarpar diogelu personol (CDP) ar gyfer gweithwyr cymal (a) a gweithwyr cymal (b) (cyfeiriwch at baragraffau 1.1 – 1.5), gan gynnwys ystyried yr hierarchaeth o fesurau rheoli (cyfeiriwch at 2.1)? | | | |
| • Mae camau gweithredu wedi cael eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad er mwyn sicrhau bod gweithwyr wedi cael cyfarpar diogelu personol addas (oni bai bod y risg wedi cael ei reoli'n ddigonol drwy ddulliau eraill sydd yr un mor effeithiol neu'n fwy effeithiol). | | | |
| • Rydych chi wedi sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol yn addas i risgiau ac amgylchiadau'r sefyllfa. | | | |
| • Rydych chi wedi sicrhau bod maint y cyfarpar diogelu personol yn gywir i'r gwisgwr. | | | |
| • Rydych chi wedi sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol yn rheoli'r risgiau perthnasol heb wneud y risg yn gyffredinol yn fwy. | | | |
| • Ydy'r cyfarpar diogelu personol yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad cyfreithiol cyfredol (marc CE ar gyfer cynhyrchion ar y farchnad cyn y cyfnod pontio neu farc UKCA ar gyfer cynhyrchion sy'n dod ar y farchnad o 1 Ionawr 2025 ymlaen) sy'n berthnasol i'r eitem honno o gyfarpar diogelu personol? | | | |
| • Mae gweithwyr wedi cael cyfarwyddiadau eglur ar gael cyfarpar diogelu personol, os nad yw wedi cael ei roi i weithwyr penodol eisoes. | | | |
| • Rydych chi wedi sicrhau bod eitemau yn gyfaddas, a'u bod mor effeithiol at ei gilydd â'u bod yn unigol, pan fydd yn ofynnol gwisgo mwy nag un eitem o gyfarpar diogelu personol. | | | |
| • Mae'r cyfarpar diogelu personol:<br>(a) yn cael ei archwilio'n rheolaidd;<br>(b) yn cael ei lanhau'n rheolaidd;<br>(c) yn cael ei gynnal a chadw'n rheolaidd;<br>(ch) mae'n cael ei atgyweirio neu ei newid pan fydd angen; | | | |

| | ✓ Fel y bo'n briodol | | |
|---|---|---|---|
| | Dd/ B | ✓ | X |
| • Mae gweithwyr wedi cael eu cyfarwyddo i roi gwybod pan fydd unrhyw gyfarpar diogelu personol yn cael ei golli neu pan fydd nam arno. | | | |
| • Mae gweithwyr wedi cael eu cyfarwyddo i newid cyfarpar diogelu personol ar ôl i'r oes silff ddod i ben. | | | |
| • Mae man priodol wedi cael ei ddarparu ar gyfer storio cyfarpar diogelu personol pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. | | | |
| • Mae gweithwyr wedi cael hyfforddiant digonol mewn:<br>(a) gwisgo cyfarpar diogelu personol;<br>(b) defnyddio cyfarpar diogelu personol;<br>(c) cynnal a chadw cyfarpar diogelu personol;<br>(b) pwrpas cyfarpar diogelu personol; | | | |
| • Oes cofnodion priodol yn cael eu cadw? | | | |
| • Lle bo'n briodol, a yw anghenion gweithwyr unigol yn cael eu diwallu, e.e. rhywun ag alergedd i latecs neu gyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes? | | | |
| • Mae ystyriaeth wedi cael ei roi i unrhyw anghenion crefyddol neu ddiwylliannol y gweithiwr, (e.e. Siciaid a helmedau caled). | | | |
| • Mae'r gweithwyr yn deall mai at ddibenion gwaith yn unig y mae'r cyfarpar diogelu personol, nid ar gyfer dibenion preifat. | | | |
| • A oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni? | | | |

Wedi'i lenwi gan: ____________________ Wedi'i gadarnhau gan: ____________________
(Llofnod) (Llofnod)

Enw: ____________________ Enw: ____________________
(Llythrennau bras) (Llythrennau bras)

Swydd: ____________________ Swydd: ____________________

Dyddiad: ____________________ Dyddiad: ____________________